| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Tachwedd 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn ymwneud â Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 sydd i fod i ddod i rym ar 5 Rhagfyr, 2013 a'r Canllawiau Statudol drafft a gynhyrchwyd i gyd-fynd â'r Rheoliadau hyn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Er mwyn tynnu sylw'r Aelodau at y Rheoliadau drafft a'r Canllawiau Statudol.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 Dylai'r Aelodau nodi cynnwys Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 drafft a'r Canllawiau Statudol a gynhyrchwyd i gyd-fynd â nhw.

3.2 Dylai'r Aelodau argymell bod y Rheoliadau a'r Canllawiau yn cael eu hystyried wrth adolygu Cyfansoddiad y Cyngor.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) yn darparu hawl i absenoldeb teuluol i Aelodau awdurdodau lleol. Mae'r Mesur yn creu hawl i bum math o absenoldeb teuluol. Y rhain yw absenoldeb mamolaeth, absenoldeb newydd-anedig, absenoldeb mabwysiadydd, absenoldeb mabwysiadu o'r newydd ac absenoldeb rhiant. Mae hawl gan aelodau i dderbyn y mathau hyn o absenoldebau ar yr amod eu bod yn bodloni amodau penodol a nodir yn y Mesur fel rhai i'w cynnwys yn y Rheoliadau.

4.2 Daw Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013, y mae copi ohono ynghlwm fel Atodiad 1, i rym ar 5 Rhagfyr 2013 ac maent yn rhagnodi'r amodau y mae'n rhaid i Aelodau eu bodloni er mwyn cael hawl i gyfnod o absenoldeb teuluol. Maent hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn â graddau'r gwahanol gyfnodau o absenoldeb, y gallu i'w canslo a dod â'r absenoldeb i ben.

4.3 Rhennir y Rheoliadau hyn yn chwe rhan.

4.4 Mae Rhan 1 y Rheoliadau'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth. Mae'r rhan hon yn caniatáu hyd at 26 wythnos o absenoldeb mamolaeth i Aelodau ac yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r Aelod fod yn gymwys i dderbyn y cyfnod hwnnw o absenoldeb.

4.5 Mae Rhan 2 yn ymwneud ag absenoldeb newydd-anedig ac yn rhoi'r hawl i Aelod dderbyn 2 wythnos yn olynol o absenoldeb newydd-anedig. Mae Rhan 2 hefyd yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Aelod gael yr hawl i dderbyn absenoldeb o'r fath.

4.6 Mae Rhan 3 y Rheoliadau yn caniatáu i Aelod dderbyn absenoldeb mabwysiadydd. Graddau'r hawl i absenoldeb mabwysiadydd yw 2 wythnos yn olynol. Mae Rhan 3 hefyd yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Aelod gael yr hawl i dderbyn absenoldeb mabwysiadydd.

4.7 Mae Rhan 4 y Rheoliadau yn delio ag absenoldeb mabwysiadu o'r newydd. Mae gan Aelod hawl i 2 wythnos yn olynol o absenoldeb mabwysiadu o'r newydd. Mae Rhan 4 hefyd yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i Aelod fod yn gymwys i dderbyn absenoldeb mabwysiadu o'r newydd.

4.8 Mae Rhan 3 y Rheoliadau yn caniatáu absenoldeb rhiant. Mae absenoldeb rhiant ar gael i Aelod sy'n dod yn gyfrifol am blentyn a arferai fod yn gyfrifoldeb i rywun arall. Mae absenoldeb rhiant ar gael am gyfnod o hyd at 3 mis. Mae Rhan 5 y Rheoliadau hyn yn nodi'r amodau i'w bodloni er mwyn i Aelod gael yr hawl i gyfnod o absenoldeb rhiant.

4.9 Mae Rhan 6 y Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cadw cofnodion, dyletswyddau i hysbysu, hawl yr awdurdod lleol i ganslo absenoldeb teuluol, cwynion a Rheolau Sefydlog yn ymwneud ag Aelodau wrth gael cyfnod o absenoldeb teuluol.

4.10 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol drafft mewn perthynas â'r Rheoliadau ac mae'r Canllawiau drafft ynghlwm fel Atodiad 2. Rydym yn disgwyl y Canllawiau terfynol ar hyn o bryd.

4.11 Bydd angen i'r Cyngor ystyried gofynion y Rheoliadau a'r Canllawiau ac adolygu ei Gyfansoddiad yn unol â hynny er mwyn rhoi ystyriaeth i'r gofynion hyn.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd, ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

7.1 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

## 9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Os nad fydd y Cyngor yn cyflwyno mesurau priodol i gofnodi cyfnodau o absenoldeb teuluol a diwygio'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r gwahanol hawliau i absenoldeb teuluol mae perygl na fydd y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011.

## 10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011